

POWEL, ANTONI (c. 1560 - 1618/9), gŵr bonheddig ac achydd

Enw: Antoni Powel

Dyddiad geni: c. 1560

Dyddiad marw: 1618/9

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gŵr bonheddig ac achydd

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Griffith John Williams

o Lwydarth ym mhlwyf Llangynwyd ym Morgannwg. Ei dad a'i ewythredd a ddechreuodd arfer y cyfenw 'Powel,' a'u disgynyddion hwy oedd 'Poweliaid' Tir Iarll a'r cyffiniau. Ychydig a wyddom amdano, ond, yn ôl pob tebyg, ef oedd yr Antoni Powel a weithredai fel stiwart i'r teulu **Manse**l Margam. Y mae'n eglur ei fod ef, fel cynifer o'r teulu, yn ymddiddori mewn llenyddiaeth, ac fe'i henwir gan **Lewis Dwnn** fel un o'r gwŵr bonheddig a ddangosodd iddo 'hen Regords a llyfrau y tai o grefydd' ac fel gŵr a sgrifennodd 'am holl ynys Brydain.' Cyfeirir, y mae'n eglur, at waith achyddol. Ond yr unig un o'i lawysgrifau sydd ar glawr heddiw (cyn belled ag y gwyddys) ydyw 'Llyfr Du Pantylliwydd' (Llanover E 3), a gynnwys achau a'r defnydd arferol a leinw lyfrau'r arwyddfeirdd. Y mae hon, yn ôl pob tebyg, yn ei law ef. Ond priodolodd '**Iolo Morganwg**' bob math o bethau iddo, megis brut, hanes eisteddfodau, trioedd, hanes beirdd Morgannwg, etc. Mynnai hefyd ei fod yn fardd ac yn un o Undodwyr cynnar y sir. Tebyg mai'r cyfeiriad ato yn llyfr **Lewis Dwnn** a barodd iddo ei wneuthur yn gymeriad mor amlwg yn yr ysgrifau ffug.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

T. C. Evans, *History of Llangynwyd Parish, with Illustrations* (Llanelly 1887), 3, 182-4

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 1948, 214-8

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20738017](https://www.wikidata.org/wiki/Q20738017)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

